

## Cwrs Uwch - Uned Gyfoes

### Garddio a Mwy

#### Geirfa

rhaw	<i>spade/shovel</i>	cafn	<i>trough</i>
		cynnyrch	<i>produce/product</i>
		gro	<i>pebbles/gravel/shingle</i>
		gwraidd (gwreiddiau)	<i>root(s)</i>
		machlud(-oedd)	<i>sunset(s)</i>
		perlysieuyn (perlyisiau)	<i>herb(s)</i>
		trwch	<i>thickness, thick layer</i>
chwynnu	<i>to weed</i>		
dyfrio	<i>to water</i>		
disodli	<i>to displace/to oust</i>		
machlud	<i>to set (yr haul)</i>		
plannu	<i>to plant</i>		
trawsnewid	<i>to transform</i>		
ar y gweill	<i>ongoing/in preparation</i>		

#### Cyflwyniad

Mae rhaglen *Garddio a Mwy* yn dychwelyd ar gyfer cyfres newydd o raglenni fydd yn cael eu darlledu ar S4C bob nos Lun o 15 Ebrill. Canolbwynt y rhaglen ydy gardd Sioned ac Iwan Edwards yn eu cartref ym Mhont-y-Tŵr ger Rhuthun yn Nyffryn Clwyd. Cawn weld pa brosiectau sydd ganddyn nhw **ar y gweill** yno a sut mae pethau'n datblygu o wythnos i wythnos trwy'r tymor tyfu. Mae'n siŵr y bydd merched Sioned ac Iwan, Nanw a Malan yn rhoi rhywfaint o help yn yr ardd, ac mae lago, **yr hogyn bach** yng nghanol popeth ar hyn o bryd!

O ran prosiectau, mae Iwan yn gobeithio ail-gynllunio'r patshyn llyisiau eleni. Roedd Sioned yn arfer tyfu blodau mewn gardd dorri yn yr ardal honno, drws nesaf i lysiau Iwan, ond mae hi wedi cael ei **disodli** o'r ardal honno erbyn hyn, ac wedi symud ei gwelyau hi i'r ardal yn ymyl y twnnel tyfu. Bydd Sioned yn mynd i weld sut mae planhigion wedi cael eu tyfu at ddefnydd meddygol dros y canrifoedd wrth iddi ymweld â Gardd **Berlyisiau**'r Bont-faen ym Mro Morgannwg. Wedi iddi hi fod yno, mae'n bwriadu mynd ati i dyfu rhywfaint o berlyisiau meddygol ym Mhont-y-Tŵr.

Bydd sylw hefyd i ardd Meinir Gwilym ym Mhen Llŷn. Bydd hi'n ddifyr gweld sut mae'r pwll newydd gafodd ei greu yn ystod y gyfres ddiwethaf yn datblygu, a pha fywyd gwyllt sydd wedi dechrau ymweld ag o. Mae'r ardd rosod ar ei hail flwyddyn ac fe gawn ni weld sut mae honno'n **dod yn ei blaen** a beth mae Meinir yn ei wneud i **dendio**'r rhosod.

Bydd y cyflwynwyr yn ymweld â gerddi pobl eraill yn ystod y gyfres hefyd. Bydd ambell un yn cael cyngor gan Sioned, Iwan neu Meinir ac yn cael eu help i drawsnewid rhan o'r ardd. Ar adegau eraill, mynd i gael cyngor fyddan nhw a gweld beth gallan nhw ei ddysgu gan arbenigwyr neu bobl sy'n mwynhau garddio mewn ffyrdd gwahanol.

Gallwn ddisgwyl rhywfaint o'r "mwy" yn *Garddio a Mwy* hefyd – syniadau am bethau i'w gwneud er mwyn mwynhau yn yr ardd ac ambell i rysâit yn defnyddio **cynnyrch** o'r ardd.

## Ymarfer iaith

1. Pa eiriau sy'n cael eu defnyddio yn y cyflwyniad uchod sydd â'r un ystyr â'r canlynol:

- i. bachgen \_\_\_\_\_
- ii. symud o'i lle \_\_\_\_\_
- iii. gofalu am \_\_\_\_\_
- iv. pethau sydd wedi  
eu tyfu yn yr ardd \_\_\_\_\_

2. **dod yn ei blaen**

Gwelon ni yn y cyflwyniad y byddwn ni'n cael gweld sut mae gardd rosod Meinir yn **dod yn ei blaen** yn ystod y gyfres. Rhowch y ffurfiau cywir ar yr ymadrodd **dod ymlaen** yn y bylchau isod:

Mae'r gwaith ar y tŷ yn \_\_\_\_\_ yn dda.

Sut mae'r gweithwyr newydd yn \_\_\_\_\_ yn y swyddfa?

Wyt ti'n \_\_\_\_\_ yn dda ar y cwrs Ffrangeg?

Dych chi fel tasech chi'n \_\_\_\_\_ yn wych.

3. **ar y gweill**

Cawn ni weld pa brosiectau fydd gan y garddwyr **ar y gweill** yn ystod y gyfres. Beth sydd **ar y gweill** gennych chi ar hyn o bryd – gartref neu yn y gwaith?

## Cyflwynwyr Garddio a Mwy



Iwan



Sioned



Meinir

Rhowch ✓ o dan enw'r cyflwynydd/cyflwynwyr perthnasol ar gyfer pob un o'r datganiadau isod:

	Iwan	Sioned	Meinir
byw yn Nyffryn Clwyd			
byw ym Mhen Llŷn			
â thri o blant			
wedi gosod pwll yn yr ardd			
hoff o dyfu blodau i'w torri			
hoff o dyfu llysiau			
â diddordeb mewn perlysiâu meddygol			
wedi plannu gardd rosod			

## Storm eirfa

Meddyliwch am gymaint o eiriau â phosib sydd yn ymwneud â garddio:


### Siarad

- Oes gynnoch chi ardd / Oes gardd gyda chi? Disgrifiwch hi.
- Beth dych chi'n ei wneud yn eich gardd chi?
- Ydych chi'n hoffi treulio amser mewn gardd neu erddi yn rhywle arall, e.e. mewn parc neu erddi cyhoeddus?
- Fasai'r ardd yn ystyriaeth bwysig i chi wrth brynu tŷ?

## Gardd gysgodol Meinir

Byddwch chi'n gweld clip fideo o Meinir yn cyflwyno syniad ar gyfer **llecyn cysgodol** yn yr ardd.

1. Cyn gwyllo'r fideo, gweithiwch gyda phartner i gysylltu'r geiriau isod gyda'r diffiniadau cywir:



y rhannau o blanhigion sydd o dan y pridd fel arfer

planhigyn dringol sydd â blodau siâp trwmped (honeysuckle)

yr haul yn mynd i lawr ar ddiwedd y dydd

dŵr yn mynd i lawr trwy'r pridd

ddim yn yr haul

cerrig mân

lliw gwyrdd

potyn neu lestr mawr, agored

2. Dych chi'n un o'r bobl 'ma sy'n...?

Ar ddechrau'r clip fideo, mae Meinir yn gofyn: "Dach chi'n un o'r bobol 'ma sy'n deud na fedrwch chi ddim tyfu dim byd?" Gofynnwch y cwestiwn hwn i'ch partner, yna gofynnwch ddau gwestiwn gwahanol, gan ddechrau gyda "Dych chi'n un o'r bobl 'ma sy'n...?"

e.e. cyrraedd y gwaith yn gynnar iawn yn y bore,  
aros yn y lôn ganol wrth yrru ar draffordd  
gallu bwyta unrhyw beth heb ennill pwysau

3. Gwylwch y fideo a gwrandewch am y geirau a restrwyd yn 1. uchod.



4. Pa eiriau mae Meinir yn eu defnyddio i ddisgrifio llecyn bach iawn:

“patshyn \_\_\_\_\_ ”

5. Ceisiwch esbonio wrth eich partner ble mae’r haul yn codi ac yn machlud dros eich gardd neu eich cartref chi?

6. Glywch chi Meinir yn dweud bod eisiau sicrhau bod gan y planhigion “drwch da o ro” uwchben y gwreiddiau? Dych chi’n deall ystyr “trwch da” yma?  
Gosodwch y geiriau canlynol yn y blychau mwyaf addas yn y brawddegau isod (a chofiwch dreiglo os oes angen):

**eira**                      **menyn**                      **pridd**                      **gwllân**

- i. Mae Siôn yn hoff o gael trwch da o \_\_\_\_\_ ar ei fara.
- ii. Mae trwch da o \_\_\_\_\_ ar Ddefaid Mynydd Cymreig dros y gaeaf.
- iii. Bydd angen trwch da o \_\_\_\_\_ yn yr ardd os dych chi eisiau tyfu tatws.
- iv. Roedd trwch da o \_\_\_\_\_ ar y llethrau sgïo.
7. Gwylwch y fideo eto, yna gyda’ch partner, gosodwch y cyfarwyddiadau ar sut i baratoi’r cafn yn eu trefn. Bydd eich tiwtor yn rhoi’r cyfarwyddiadau i chi.

Pa un o’r cyfarwyddiadau hyn wnaeth Meinir ddim ei wneud ar yr adeg orau?

## Ymarfer geirfa

Dewiswch y gair mwyaf addas i'w roi yn y bwlch yn y brawddegau isod (a'i dreiglo os oes angen):

1. Mae gardd Eleri wedi cael ei \_\_\_\_\_ yn llwyr – do'n i ddim yn nabod y lle!
  - a. trawsblannu
  - b. trawsnewid
  - c. trosglwyddo
2. Dw i wedi paratoi'r ardd lysiau a heddiw, bydda i'n \_\_\_\_\_ tatws.
  - a. plannu
  - b. chwynnu
  - c. claddu
3. Bydd y gwahanol flodau mae Prys wedi'u gosod yn y border yn rhoi \_\_\_\_\_ hyfryd o liwiau yn yr haf.
  - a. cytundeb
  - b. cyfraniad
  - c. cyfuniad
4. Pan fyddan nhw'n tyfu, bydd angen \_\_\_\_\_ planhigion y ffa i'r ffyn bambw.
  - a. clymu
  - b. cario
  - c. gludo
5. Os na wnewch chi \_\_\_\_\_'r gwely blodau, bydd y pridd yn sychu a'r blodau'n marw
  - a. gwlychu
  - b. dyfrio
  - c. bwydo

## Gardd Nia

Byddwch chi'n gweld clip fideo o Sioned yn gwneud gwaith yng ngardd Nia Davies Williams.



1. Ysgrifennwch y geiriau wnaethoch chi eu gosod yn y bylchau yn yr ymarfer iaith diwethaf yma; yna gwylwch y fideo, gan wrando am y geiriau hyn:

Five empty rounded rectangular boxes for writing answers.

Gwylwch y fideo eto cyn trafod y cwestiynau canlynol gyda'ch partner:

2. Ym mha dref mae gardd Nia?
3. Pa gamau mae Sioned wedi eu cwblhau yn y broses o drawsnewid yr ardd?
  - i. \_\_\_\_\_
  - ii. \_\_\_\_\_
  - iii. \_\_\_\_\_
  - iv. \_\_\_\_\_
4. Beth ydy'r cam nesaf? Hynny yw, beth mae hi am ei wneud rwan/nawr?  
\_\_\_\_\_

5. Sut mae'r *Achillea* a'r *Catmint* yn wahanol o ran beth sy'n digwydd ar ôl i'r blodau farw?

---

---

6. Sut gallwch chi gael planhigion *Achillea* newydd?

---

---

7. Beth sy'n rhoi'r tri lliw mae Nia'n eu henwi?

---

---

8. Pa waith sydd gan Nia i'w wneud yn yr ardd ar ôl i Sioned orffen a pham?

---

---

### Siarad

- Ydych chi'n gwneud llawer o waith yn eich gardd chi?
- Ydych chi'n tyfu planhigion mewn potiau dan do neu allan yn yr awyr iach?
- Ydych chi'n hoffi newid pethau yn yr ardd o flwyddyn i flwyddyn, neu ydy pethau heb eu newid ers blynyddoedd?
- Tasech chi'n gallu cael tîm *Garddio a Mwy* i weithio ar brosiect garddio i chi, beth fydddech chi'n gofyn iddyn nhw ei wneud?
- Ydych chi'n tyfu unrhyw lysiau neu ffrwythau? Ddylen ni dyfu mwy o'n bwyd ein hunain?